



Pam ydym ni angen eich gwybodaeth

Bydd y wybodaeth bersonol yr ydych chi'n ei darparu i Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei defnyddio i asesu eich cais am arian gan y Cynllun Twf ac i roi gwybod i chi am ganlyniad eich cais. Gallwn rannu'r wybodaeth yma gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, ein sefydliadau partner, ac unrhyw sefydliadau perthnasol eraill.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd eich gwybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio wrth weinyddu Cynllun Twf Gogledd Cymru ac i fonitro a gwerthuso'r prosiect.

Cyfiawnhad dros ddefnyddio eich gwybodaeth

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU), mae Uchelgais Gogledd Cymru yn dibynnu ar fuddiant dilys Erthygl 6 (1) (f) i brosesu gwybodaeth bersonol a ddarparwyd yn eich cais am arian gan y Cynllun Twf.

Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru hefyd ddyletswydd dan y sail cyfreithiol isod:
Atal/canfod trosedd, yn cynnwys dweud anwiredd yn unol â'r Ddeddf Twyll.

Rhannu eich gwybodaeth

Gallwn rannu eich gwybodaeth gyda'r sefydliadau isod

- Llywodraeth y DU
- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau lleol eraill yng ngogledd Cymru
- unrhyw sefydliadau eraill perthnasol

Bydd unrhyw wybodaeth a rennir ar sail gwir angen gwybod yn unig, gyda'r unigolion priodol a lleiafswm y wybodaeth ar gyfer y pwrpas.

Ni fydd Uchelgais Gogledd Cymru yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i wlad arall.

Sut byddwn yn cadw eich gwybodaeth

Bydd yr holl wybodaeth am eich cais yn cael ei storio yn ein systemau rheoli cofnodion diogel. Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei dinistrio'n ddiogel ar ôl y cyfnod cadw a nodir isod.



Pa mor hir fyddwn ni yn cadw eich gwybodaeth

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 7 mlynedd o daliad ariannol terfynol y Cynllun Twf. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 12 mis o ddiwedd y broses ymgeisio.

Eich hawliau

Dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol y mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ei ddal amdanoch chi a chael mynediad iddo;
- i wneud i ni gywiro unrhyw wallau yn y data hwnnw;
- er mwyn (mewn rhai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu';
- (mewn rhai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu prosesu;
- (mewn rhai amgylchiadau) i symud data;
- i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych yn anhapus gyda sut yr ydym wedi defnyddio eich data.

Nid oes angen i chi dalu unrhyw ffi am ymarfer eich hawliau. Os ydych yn gwneud cais am wybodaeth, mae gennym un mis i ymateb.

Cysylltiadau

Am ragor o fanylion am y wybodaeth sydd gan Uchelgais Gogledd Cymru, neu os hoffech ddefnyddio eich hawliau dan GDPR y DU, cysylltwch â ni info@ambitionnorth.wales

Cyfeiriad yr ICO:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif ffôn y llinell gymorth: 0303 123 1113

Gwefan yr ICO: <https://www.ico.org.uk>



